| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Ionawr 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Prawf Lles y Cyhoedd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y cynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru '(yr Ombwdsmon) i gyflwyno Prawf Lles y Cyhoedd newydd wrth ystyried a ddylid ymchwilio i honiadau bod aelod etholedig wedi torri'r Cod Ymddygiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.2 Gofyn am farn yr Aelodau ar y cynnig i gyflwyno Prawf Lles y Cyhoedd fel y nodir yn y papur a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.3 Bod aelodau'r Pwyllgor yn rhoi eu barn ar y cynnig i gyflwyno Prawf Lles y Cyhoedd fel y nodir yn y papur a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu papur trafod, copi ohono ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad 1, ar gynnig ei fod yn cyflwyno prawf ychwanegol wrth ystyried a ddylid ymchwilio i gŵyn a wnaed iddo fod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

4.2 Mae swyddfa'r Ombwdsmon ers nifer o flynyddoedd wedi cymhwyso prawf dau gam wrth ystyried a ddylid ymchwilio i doriad honedig Cod Ymddygiad gan aelod.

4.3 Y cam cyntaf yw sefydlu a oes tystiolaeth bod torri'r Cod wedi digwydd mewn gwirionedd.

4.4 Yr ail gam yw ystyried a fyddai'r toriad honedig, os profir, yn debygol o arwain at osod sancsiwn gan Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Wrth ystyried y tebygolrwydd o sancsiwn yn cael ei osod, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn

ystyried yr achosion sydd wedi cael eu hystyried gan Bwyllgorau Safonau ledled Cymru a'r camau mae’r pwyllgorau hynny wedi eu cymryd.

4.5 Mae'r Ombwdsmon yn pryderu am nifer y cwynion lefel isel a dderbyniwyd gan ei swyddfa ac mae’n ceisio cyflwyno prawf ychwanegol a fyddai'n ystyried a oes angen ymchwiliad neu atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu er budd y cyhoedd.

4.6 Mae'r Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir yn y papur ynghlwm fel Atodiad 1 ei fod yn gweld ei rôl fel ymchwilio i achosion difrifol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn safonau mewn bywyd cyhoeddus. Ni fydd yn agor ymchwiliad oni bai ei fod o'r farn ei bod yn gymesur i wneud hynny, o ystyried amgylchiadau'r tor-rheol honedig.

4.7 Wrth benderfynu a yw ymchwiliad er lles y cyhoedd, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried nifer o ffactorau sy'n cael eu nodi yn Atodiad 1. Ni fydd pob un o'r ffactorau hyn yn berthnasol ym mhob achos a'r pwysau a roddir i bob un yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos.

4.8 Mewn ymweliad diweddar â Fforwm Safonau Gogledd Cymru, sy'n destun adroddiad ar wahân, roedd yr Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir mewn cyfnod o lai o adnoddau y byddai’n rhaid iddo flaenoriaethu'r materion y byddai ei swyddfa yn ymchwilio, ac mae’n bosibl na fydd yn briodol mwyach i ddefnyddio adnoddau ar gyfer ymchwilio i gwynion lefel isel.

4.9 Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon yn ystyried a ddylid parhau â'r arfer o gyfeirio’r achosion hynny, er y gall fod tystiolaeth o dorri amod ei fod wedi penderfynu peidio ag ymchwilio, i swyddogion monitro lleol ar gyfer ymchwilio oherwydd ail gymal ei brawf presennol. Gofynnir am farn yr aelodau ar y pwynt hwn hefyd..

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid oes gan yr adroddiad effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

7.1 Nid yw’r adroddiad hwn angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni adroddwyd nac ymgynghorwyd ar y mater hwn yn unman arall.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes costau uniongyrchol yn deillio o’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1 Mae perygl os bydd Prawf Lles y Cyhoedd yr Ombwdsmon yn cael ei gymhwyso ar lefel trothwy rhy uchel y gallai fod posibilrwydd o dorri'r Cod Ymddygiad a ddylai fod yn destun sancsiwn heb gael ei ymchwilio.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Erthygl 9.2 Cyfansoddiad y Cyngor